**Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**
**Cyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol**
**28 Chwefror 2020**
**Caffi'r Ardd Gudd, Parc Bute, Caerdydd**

**Agenda / Materion a Drafodwyd:**

1. Y diweddaraf am y Bil
   - Cyfathrebu
   - Y Grŵp Gweithredu Strategol
2. Y diweddaraf gan Randdeiliaid am weithgarwch yn ymwneud â'r Bil
3. Cynllun yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd

**Camau Gweithredu / Penderfyniadau:**

- Bydd Llywodraeth Cymru (LlC) yn gwneud y canlynol:
  - rhannu erthygl Early Years Educator 'Eye'.
  - rhannu rhywfaint o'r sylw a gafwyd ar y cyfryngau yng Nghymru a'r DU ar gyfer Cyfnod 4.
  - dosbarthu'r map rhanddeiliaid er mwyn i'r grŵp allu cyflwyno sylwadau arno a'i adolygu.
  - trefnu sesiwn wybodaeth fanwl a briff gweithio yn ymwneud â gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, a rhannu'r ddogfen 'Charging and Out of Court Disposals: A National Strategy' gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC).
  - rhannu fideo esboniadol diweddaraf y Ddeddf ynghyd â hysbyseb ar-lein byr.
  - rhannu'r ddolen ar gyfer y Memorandwm Esboniadol, a fydd yn cael ei ddiweddaru ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Mae'n cynnwys y cynllun gweithredu lefel uchel, a chynigir trosolwg o waith y grwpiau gweithredu ar dudalen 120.
  - trefnu cyfarfod i drafod y strategaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Bydd y grŵp yn
  - hysbysu LlC os oes ganddo astudiaethau achos posibl neu wybodaeth am grwpiau rhianta BAME.
  - rhoi gwybod i LlC am gynadleddau neu ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal, fel y gellir eu cysylltu â sioeau teithiol a chyfleoedd ymgysylltu o fath arall.